

Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 156 Rhif 4 Ionawr 26, 2023 50c.

Cofio'r Holocaust

Yr Holocaust oedd un o weithredoedd mwyaf diefflig dynoliaeth erioed. O dan arweiniad gwladwriaeth y Natsïaidd yn yr Almaen yn ystod yr Ail Ryfel Byd fe ddiennyddiwyd oddeutu chwe miliwn o Iddewon Ewropeaidd a phum miliwn o garcharorion rhyfel yn cynnwys Romani, Tystion Jehofa, pobl hoyw a lleiafrifoedd eraill a hynny mewn dulliau cyfan gwbl annynol. Ni ddylem byth anghofio'r erchyllterau hyn na dyfnderoedd llygreddigaeth dynolryw.

Sefydlwyd dydd Coffáu'r Holocaust Rhyngwladol ar 27 Ionawr 2000. Arwyddocâd y 27/01 yw mai dyma ddyddiad y rhyddhawyd gwersylloedd crynhoi Auschwitz-Birkenau yn y flwyddyn 1945. Yn Ionawr 2000 daeth cynrychiolwyr 46 o lywodraethau at ei

gilydd yn Stockholm i drafod sut fydda'i ffordd orau i gofio'r Holocaust. Yn dilyn y cyfarfod cyntaf hwnnw fe ymrwymodd y cynrychiolwyr i 'goffáu'r rhai a ddioddefodd o ganlyniad i'r Holocaust ac i anrhydeddu'r rhai hynny a safodd yn ddewr yn ei erbyn' trwy arwyddo Datganiad Stockholm. Ar y dydd hwn hefyd fe gofiwn am yr hiladdiadau ddigwyddodd yn ddiweddarach yn Cambodia, Rwanda, Bosnia a Darfur.

Cynhelir digwyddiadau ar hyd a lled y byd i nodi'r dydd hwn er mwyn cofio a gwarantu na fydd unrhyw beth tebyg byth yn digwydd eto. Bydd digwyddiad cyhoeddus i gofio'r Holocaust yn y Senedd, Bae Caerdydd ar ddydd Mercher 25 Ionawr, 12.00–13.30. Cynhelir cyfarfod hefyd yn Tŷ Pawb, Market Street Wrecsam, dydd Gwener, 27/01 10.30–12.00.

Gŵyl Santes Dwynwen 25 Ionawr

*Rhosyn Saron yw ei enw,
gwyn a gwridog, teg o bryd...*

(Gweler y Golygyddol)



Caredigrwydd

Yn dilyn eu cyfweiliad ar raglen *Bwrw Golwg* ar BBC Radio Cymru fe gafodd Seren ac Arfon Jones, Caerdydd tipyn o sylw ar y cyfryngau oherwydd eu stori o haelioni a charedigrwydd.

Bu Seren – merch Arfon sydd bellach yn 19 oed – yn sâl am flynyddoedd a gorfus iddi dderbyn triniaeth dialysis. Bu yn ôl ac ymlaen i'r ysbyty yn derbyn gofal arbenigol ac fe'i rhoddwyd ar restr trawsblaniad. Yn ystod Covid fe dynnwyd eu dwy aren a olygai ei bod yn gorfod treulio 10 awr pob dydd ar beiriant dialysis. Yna ar ôl hir a hwyr daeth y newyddion da bod aren addas ar gael iddi. Derbyniodd Seren yr aren ac fe weddnewidiwyd ei bywyd yn llwyr.



Rhoddwr Byw

Yn ystod ei gwaeledd daeth y teulu ar draws cynllun arbennig sef Rhoddwr Byw sy'n defnyddio organau teulu a phobl sydd wedi bod mewn damweiniau er mwyn cynorthwyo eraill. Oherwydd bod Seren wedi ei mabwysiadu nid oedd y teulu yn gallu rhoi aren yn uniongyrchol iddi. Felly dyma ymuno â Rhoddwr Byw gan feddwl y gellid rhoi aren i rywun arall oedd mewn angen. Ar

parhad ar dudalen 2



Aelodau newydd

Cynhaliwyd oedfa arbennig iawn yng Nghaersalem, Pontyberem, ar fore Sul 9 Ionawr 2023 o dan arweiniad y gweinidog sef y Parchg Emlyn Dole. Cawsom y fraint wirioneddol o fod yn dystion i dderbyn pedwar o aelodau newydd i deulu'r eglwys sef (o'r chwith i'r dde) Robert Sheppard, Judith Davies, Swyn Dafydd a Haf Dafydd. Estynnwyd iddynt ddeheulaw cymdeithas wrth eu derbyn ac yna gweinyddwyd Swper yr Arglwydd er mwyn cofio am farwolaeth iawnol yr Arglwydd Iesu trosom. Croeso cynnes iawn iddynt!



Caredigrwydd – parhad

ôl i Seren gael aren newydd gallai Arfon fod wedi tynnu ei enw oddi ar y rhestr ond fe benderfynodd adael ei enw arni. Teimlai fod Duw am iddo wneud hyn. Dywedodd, 'Pan ddwedwyd wrtha i nad oedd rhaid i fi aros ar y rhestr – o'dd e *just* fel petai ryw lais yn siarad â fi ac yn dweud bod yna Seren arall yna'n rhywle sydd angen fy aren i a fedrwn i ddim gwrthod. Ro'n i'n teimlo bod rhaid.' Ac felly y bu.

Ar ddechrau mis Rhagfyr fe gafodd Arfon lawdriniaeth i dynnu ei aren er mwyn ei rhoi i rywun dienw oedd yn ddifrifol wael. Ni wŷr pwy yw'r person hwnnw ond fe wŷr Arfon ei fod/bod yn gwella wedi'r llawdriniaeth.

Mae hon yn stori hyfryd o gariad, haelioni a diolchgarwch Cristnogol mewn byd sy'n aml yn gas, hunanol a diddiolch. Oni ddywedodd yr Arglwydd Iesu, 'Rwyf i garu dy gymydog fel rwyf ti'n dy garu dy hun.' (Mathew 22:39) a 'Dylech chi drin pobl eraill fel byddech chi'n hoffi iddyn nhw'ch trin chi.' (Luc 6:31) Dymunwn bob iechyd a llawenydd i Seren ac Arfon i'r dyfodol.

William Williams, 'Caledfryn' 1801–69

Gweinidog Annibynnol, awdur, bardd a beirniad.

Roedd Thomas a Mary Williams, rhieni William Williams, mewn amgylchiadau cysurus pan anwyd ef yn Ninbych ar 6 Chwefror 1801, ac yn byw ym Mryn y Ffynnon. Gwehydd oedd ei dad a gyflogai dri gweithiwr i wneud brethyn a gwlenyn. Fe gafodd William addysg gynnar yn lleol hyd nes i'r hwch fynd trwy'r siop gyda masnach ei dad. Bu



Capel Glynarthen, Ceredigion

Ar ddydd Mercher 30 Tachwedd 2022 cynhaliwyd cynhadledd cwrdd chwarter Cyfundeb Ceredigion yng nghapel Glynarthen dan lywyddiaeth ein gweinidog sef cadeirydd cwrdd chwarter Cyfundeb Ceredigion y Parchedig Carys Ann, gyda Rhian Evans yn gwasanaethu wrth yr organ. Cymerwyd at y rhannau arweiniol gan Siân Davies ac Ennis Davies, aelodau capel Glynarthen.

Roedd tyrfa dda wedi dod ynghyd ar ddiwrnod difrifol o oer. Aethpwyd ymlaen trwy agenda'r prynhawn. Cyflwynwyd ffeil swmpus a defnyddiol gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg sef *Heulwen dan Gymylau*, sef cymorth i'r eglwysi i fod yn eglwysi dementia-gyfeillgar wrth ddelio ag unigolion. Cyflwynwyd y ffeil i ddwylo'r aelodau oedd yn cynrychioli eglwysi'r Cyfundeb. Yn y gobaith y bydd pob eglwys Annibynnol yng Ngheredigion yn ei dderbyn yn fuan, gan annog pawb i ymgymryd â'u dyletswyddau a chadw'r ffeil wrth law i bawb allu troi ato, gan

fod yn hyderus y bydd y ffeil o ddefnydd hanfodol yn ein heglwysi.

I ddiweddu'r gynhadledd cyflwynodd y Parchedig Carys Ann annerchiad clo'r cadeirydd am y flwyddyn 2022 gan ddymuno'n dda i'r cadeirydd newydd yn 2023 sef Keith Evans, Llandysul. Yn dilyn yr annerchiad gwahoddwyd pawb at fwrdd yr Arglwydd i gymuno. Derbyniwyd cymorth gan Dewi Jones ac Arwyn Jones o gapel Glynarthen. Croesawyd pawb i'r festri yn dilyn y gynhadledd lle'r oedd gwagedd caredig capel Glynarthen wedi paratoi yn helaeth ar gyfer y cynadleddwyr.

Carys Ann



rhaid gwerthu'r busnes, y stoc a'r siop, ac am gyfnod bu pethau'n eithriadol o fain gan fod saith o blant i'w cynnal. Aeth William Williams i Lanrwst at ei daid am gyfnod byr i brentisio fel gwehydd ac yna dychwelodd i Ddinbych i gynorthwyo'i dad.

Newid byd

O 1820 i 1826 bu'n cadw ysgol yng nghapel y Methodistiaid yn Ninbych a dyna pryd y dechreuodd gystadlu mewn eisteddfodau gan ennill y wobwr gyntaf am englyn i'r enfys yn eisteddfod Aberhonddu ym 1822. Y wobwr ariannol am ennill y gystadleuaeth hon oedd pedair gini a oedd yn swm sylweddol ar y pryd. Gallai ennill yn gyson ychwanegu llawer at gyllid gweinidogion a oedd yn aml yn byw ar eu cythlwg. Yn yr un cyfnod bu'n cyfrannu i *Seren Gomer* o dan y glasuwr Gwilym Caledfryn a defnyddiodd dalfyriad o'r enw weddill ei oes. Yr un flwyddyn cyhoeddodd ei lyfr cyntaf, sef *Cyfarwyddyd i Ddarllen ac Ysgrifennu Cymraeg*, a gwerthwyd dwy fil o gopïau ohono. Yn raddol datblygodd ei ddoniau

cyhoeddus drwy gymryd rhan yn gyson yn yr oedfaon, ond yna penderfynodd droi at yr Annibynwyr oherwydd materion yn ymwneud â threfn eglwysig, ac ymaelododd yn Lôn Swan, Dinbych, ym 1826. Aeth ar deithiau pregethu am gyfnod, ac yna i'r coleg yn Rotherham am bedwar mis cyn symud ymlaen i Fanceinion lle y bu'n pregethu i gynulleidfa Gartside Street am naw mis.

Gweinidogaethu

Yn y diwedd, wedi derbyn cyngor gan William Williams o'r Wern, fe'i hordeiniwyd yn weinidog Peniel, Llannerch-y-medd a Maenaddwyn Môn ym 1829. Yn ystod y blynyddoedd dilynol bu'n weinidog ym Mhendref, Caernarfon, 1832–48; Aldersgate Street, Llundain, 1848–50; Llanrwst, Trefriw a Nantyrhiw, 1850–56; Beulah ger Bangor, 1856–57, a'r Groeswen, Caerffili, 1857–69. Yn ystod ei gyfnod yng Nghaernarfon fe gafodd amser caled am ddau reswm, sef ei wrthwynebiad i lwyrymataliaeth a'i

parhad ar dudalen 6

Yr Adran Gydenwadol

Cwmni Traidcraft yn galw'r gweinyddwyr

Ar 20 Ionawr eleni daeth y newyddion trist fod cwmni Traidcraft, yn dilyn nifer o flynyddoedd heriol, bellach yn nwylo'r gweinyddwyr. Aled Davies sy'n olrhain yr hanes ...

Tristwch o'r mwyaf oedd clywed bod y cwmni hyrwyddo a gwerthu cynnyrch Masnach Deg wedi cael ei orfodi i gymryd y cam anodd i'w roi ei hun yn nwylo'r gweinyddwyr yn ystod yr wythnos a aeth heibio. Gwnaed colledion sylweddol o rhwng £300,000 a £400,000 yn ystod y blynyddoedd diwethaf, a hynny yn bennaf oherwydd effaith Covid. Prif incwm Traidcraft oedd gwerthiant a wnaed gan y bobl hynny oedd yn gwerthu cynnyrch yn lleol mewn eglwysi. Ond daeth hynny i ben mewn modd dramatig dair blynedd yn ôl, ac ers hynny ni lwyddwyd i adfer y fasnach i'r un graddau.

Sefydlwyd Traidcraft fel menter ffydd Gristnogol yn 1979. Fe'i lansiwyd o lawr uchaf warws o'r 1920au yng nghanol Newcastle upon Tyne gan Richard Adams, gyda chwe aelod o staff. Lluniwyd y catalog cyntaf â llaw, yn cynnwys detholiad o gynhyrchion o Fangladesh. O fewn dwy flynedd cyflwynwyd te, coffi ac wedi hynny ystod eang o fwydydd eraill. Yn 1983 symudodd y sefydliad i warws mawr ar ystad fasnachu yn Gateshead gerllaw, gan fynd â chyfanswm y staff i dros 140 o weithwyr, ac roedd bellach yn gweithio gyda dros gant o grwpiau cynhyrchwyr mewn 30 o wledydd ledled y byd. Disgrifir Traidcraft fel yr arloeswr gwreiddiol mewn Masnach Deg yn y Deyrnas Unedig – gan frwydro yn erbyn anghyfiawnder a cheisio pris teg i gynhyrchwyr ers

dros bedwar degawd. Mae wedi bod yn hyrwyddo pwysigrwydd ffermio organig, cynaliadwyedd a thryloywder i fywydau tyfwr a chrefftwyr ledled y byd.

Yn ôl datganiad a wnaed ar 20 Ionawr gan Fwrdd Cyfarwyddwyr Traidcraft plc: 'Gyda thristwch aruthrol y cyhoeddwn fod Traidcraft plc wedi ei roi yn nwylo'r gweinyddwyr. Mae'r busnes wedi bod mewn sefyllfa ariannol fregus ers rhai blynyddoedd, ac fe gyflwynodd pandemig Covid-19 set newydd sylweddol o heriau. Yn union fel yr oeddem yn dod allan o'r pandemig, fel llawer o fân-werthwyr eraill, roeddem yn wynebu effeithiau'r rhyfel yn Wcráin, prisiau ynni cynyddol, a chostau trafniadaeth uwch. Yn anffodus, er gwaethaf ymdrechion arwrol ein tîm yn Gateshead, yn ystod cyfnod masnachu tyngedfennol y Nadolig, gyda gwerthiant gryn dipyn yn llai na'r hyn oedd ei angen i gynnal y cwmni, a gyda heriau o ran y tywydd a'r ansicrwydd a grëwyd gan streiciau'r Post Brenhinol, roedd y golled yn fwy na y gellid ei chynnal.

'Ar ôl llawer o drafod ac yn dilyn cyngor gan gynghorwyr allanol, rydym wedi dod i'r casgliad mai'r unig ffordd anrhydeddus o weithredu yw penodi gweinyddwyr. Drwy wneud hyn mewn modd amserol, ein gobaith yw y gallwn leihau'r effaith ar ein cyflenwyr a'n credydwyr. Mae'n dorcalonnu dod â stori Traidcraft plc i ben yn y modd hwn, ond gallwn o leiaf gael rhywfaint o gysur o'r wybodaeth ein bod wedi bod yn rym mawr er daioni yn y sector manwerthu moesegol ers dros ddeugain mlynedd. Rydym wedi hyrwyddo achos cyfiawnder masnach i'r pwynt lle mae gennym bellach safonau a gweithdrefnau



TRAIDCRAFT
Fighting poverty through trade

gwell ar waith i amddiffyn hawliau ac urddas tyfwyr a chynhyrchwyr ledled y byd.

'Hoffem ddiolch o galon i bawb sydd wedi teithio gyda ni fel gweithwyr, ac yn arbennig y Fairtraders yn yr eglwysi, llawer ohonynt wedi bod gyda ni ers y cychwyn cyntaf. Ein gobaith a'n gweddi yw y bydd eraill yn dod i'r amlwg i godi'r fflag yr ydym wedi'i chario ers pedwar degawd.'

Un o'r Fairtraders hynny ers blynyddoedd maith yw'r Parch. Tom Defis, Caerfyrddin. Ar un cyfnod roedd yn un o brif gwsmeriaid y cwmni, ac mae wedi cario cynnyrch o gwmpas capeli ac eglwysi sir Gaerfyrddin ers degawdau. Bydd amryw o ddarlennwyr



Cenn@d hefyd wedi dod ar ei draws yn y gwyliau cenedlaethol, ar faes yr Eisteddfod a'r Sioe, efo'i stondin cynnyrch Traidcraft. Wrth sgwrsio â Tom am y newyddion, soniodd am bwysigrwydd y cwmni fel arloeswr ym myd Masnach Deg, ac fel cwmni a wnaeth gyfraniad enfawr, a hynny oherwydd amrywiaeth y cynnyrch – o nwyddau bwyd fel te, coffi, siwgr, mêl, ffrwythau sych, siocled, grawnfwyd a sbeisys i gynnyrch crefft a nwyddau i'r cartref. Dywedodd fod colli Traidcraft yn ergyd anferth i'r achos, a bod ein dyled yn fawr iddynt am eu gwaith diflino dros ddeugain mlynedd.

Ond mae Tom hefyd am ein hatgoffa bod yna gynhyrchwyr eraill yn y byd Masnach Deg erbyn hyn, a bod brandiau fel Divine gyda'i siocledi a Cafe Direct efo'u te a'u coffi yn parhau i fasnachu. A ninnau ar drothwy pythefnos Masnach Deg ym mis Chwefror, mae'n debyg bod y gofyn a'r galw i gefnogi yn fwy nag erioed. Fel Cristnogion yng Nghymru, beth am i ni ymrwymo unwaith eto i gefnogi a phrynu cymaint o nwyddau Masnach Deg ag y medrwn, er mwyn sicrhau tegwch i gynhyrchwyr ledled y byd? Diolchwn am gyfraniad enfawr Traidcraft i faes Masnach Deg, a gweddiwn y daw eraill eto i hybu a hyrwyddo'r diwydiant pwysig hwn.



Cyfarfod Sefydlu'r Parchedig Ddr Alun Morton Thomas

Daeth nifer fawr ynghyd i gyfarfod sefydlu'r Parchedig Ddr Alun Morton Thomas yn weinidog ar Ofalaeth Bro Llanfair-pwll a'r Cylch a gynhaliwyd yn Eglwys Unedig Rhos y Gad ddydd Sadwrn, 14 Ionawr.

Llywyddwyd y cyfarfod gan y Parchedig Megan Williams, Llywydd Henaduriaeth Môn. Offrymodd y Llywydd weddi, a chroesawodd i'r oedfa y Parchedig Nan Wyn Powell-Davies, Ysgrifenydd Cyffredinol Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Estynnodd groeso hefyd i aelodau eglwysi Rhos y Gad, Llanfair-pwll; Disgwylfa, Gaerwen; Moreia, Llangefni; a Thŷ Mawr, Capel Coch, ynghyd â llu o gyfeillion eraill, pell ac agos. Nododd nad oedd gwaith Llywydd yr Henaduriaeth bob amser yn hawdd, yn enwedig pan fo gofyn am arwain gwasanaeth datgorffori eglwys. Fodd bynnag, yr oedd yr achlysur hwn yn un hapus, ac yn uchafbwynt ei llywyddiaeth, gan ein bod yn cyfarfod i sefydlu gweinidog ifanc, brwdfrydig a boneddigaidd, a mynegodd y gobaith y byddai holl aelodau'r eglwysi o dan ei ofal yn estyn pob cefnogaeth iddo.

Offrymwyd gweddi a darllenwyd o Efengyl Mathew 28 a 2 Timotheus 1 gan y Parchedig R. O. Jones. Yr oedd y gwasanaeth sefydlu yng ngofal y Parchedig Megan Williams a Miss Jane Richards, Ysgrifennydd yr Henaduriaeth. Cadarnhaodd Miss Richards fod yr alwad i'r Parchedig Alun Morton Thomas yn Weinidog yr Ofalaeth yn hollol unol â rheolau'r Corff. Wedi i'r Dr Thomas ymateb yn gadarnhaol i holl gwestiynau'r Llywydd, offrymwyd gweddi drosto gan gyn-weinidog yr ofalaeth, y Parchedig Jim Clarke.

Priodol oedd gwahodd y Parchedig Brian Wright i roi siars i eglwysi'r ofalaeth, gan ei



Yn y llun y mae'r Parchedig John M. Job, Miss Jane Richards, y Parchedig Brian Wright, y Parchedig Megan Williams, y Parchedig Ddr Alun Morton Thomas, y Parchedig R. O. Jones, Mr Huw Goronwy Owen, y Parchedig Nan Wyn Powell-Davies, a'r Parchedig Jim Clarke

fod ef wedi adnabod Alun a'i briod, Gwawr, hyd yn oed cyn i'r ddau ddod i nabod ei gilydd! Cymerodd yndestuneiriau Paulwrth Timotheus: 'Felly, na foed cywilydd arnat roi tystiolaeth i'r Arglwydd' (2 Timotheus 1:8). Pwysleisiodd nad peth hawdd bob amser oedd tystio i'r Arglwydd, gan fod y byd, yn gyffredinol, yn erbyn y dystiolaeth Gristnogol. Cyfeiriodd at groeshoeliad Iesu pan fu iddo wynebu gwawd a dirmyg gan y Sanhedrin, yr Iddewon a'r milwyr. Tasg yr eglwys heddiw – yn weinidogion, yn flaenoriaid, diaconiaid, ac aelodau – oedd codi llais o blaid Iesu a dwyn tystiolaeth i waith yr efengyl.

Ar ôl y siars, darlennodd y Llywydd neges gan Mr Rheinallt Thomas, cyn-lywydd yr ofalaeth, yn dymuno pob llwyddiant i Alun ac i'r ofalaeth ar gyfer y dyfodol. Offrymwyd gweddi ar ran yr ofalaeth gan y Parchedig John M. Job. Gweddi o ddiolch oedd ganddo: diolch am Alun a'i waith diwyd, gofalus a chydwybodol yn yr ofalaeth, a diolch nad oedd Iesu wedi gadael ei hun yn ddi-dystiolaeth mewn unrhyw genhedlaeth.

Cafwyd ymateb gan Alun yn nodi bod pedair blynedd eisoes wedi mynd heibio ers iddo ddod i'r ofalaeth, a mynegodd werthfawrogiad o'r gefnogaeth a'r cymorth yr oedd wedi eu derbyn gan swyddogion ac aelodau eglwysi'r ofalaeth. Pwysleisiodd y pwysigrwydd o gadw'n ffyddlon i addewidion mawr Duw, a beth bynnag fo gobeithion a phryderon y gynulleidfa gallent ymdawelu yn y sicrwydd bod cariad Crist yn sylfaen i'w bywydau.

Bu i'r Parchedig Ronald Williams a Huw Goronwy Owen hefyd gymryd rhan yn y gwasanaeth. Yr oedd aelodau o bob un o eglwysi'r ofalaeth wedi bod wrthi'n paratoi lluniaeth, a daeth nifer ynghyd i'r festri wedi'r oedfa i fwynhau paned, cacen a sgwrs.

Eryl W. Davies

DS Gellir gwyllo recordiad o'r gwasanaeth ar sianel YouTube Gofalaeth Bro Llanfairpwll a'r Cylch: https://www.youtube.com/watch?v=htiVFDxrJc&ab_channel=GofalaethBroLlanfairpwlla%27rCylch

CYFLEOEDD CYFFROUS I WEINIDOGAETHU I BLANT, IEUENCTID A THEULUEDD



Swyddog Plant a Theuluoedd Caersalem, Caernarfon
(2 ddiwrnod yr wythnos)



Swyddog Plant, Ieuenctid a Theuluoedd Cynllun Efe,
Bro Eco'r Wyddfa
(3 diwrnod yr wythnos)

Ydych chi'n angerddol dros rannu gobaith Iesu Grist ag eraill? Ydych chi eisiau gweithio gyda phlant, ieuenctid a theuluoedd?

Ymgeisiwch am y swyddi hyn am gyfle i ddatblygu eich doniau mewn lleoliadau cefnogol.

Bydd y ddwy swydd hon yn ffurfio tîm a fydd yn cydweithio ar ran Capel Caersalem a Chynllun Efe.

Am fanylion llawnach am y swyddi a ffurflen gais, cysylltwch ag Arwel E. Jones: eithinoguchaf@btinternet.com.

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 3 Chwefror 2023

ADNABOD

Cymeriadau'r Hen Destament

ABRAHAM

Cyfes o astudiaethau gan y Parch. Meirion Morris ar gyfer grŵp neu unigolion; gellir eu defnyddio ochr yn ochr â'r gyfrol *Dehongli Bywyd Abraham* gan Gareth Lloyd Jones.

15 Offeiriad am byth, yn ôl urdd Melchisedec

(Gweler hefyd *Dehongli Bywyd Abraham*, gan Gareth Lloyd Jones, Pennod 8)

Darllen: Genesis 14:1–20; Salm 110 a Hebreaid 7

Os oedd hanes y rhyfeloedd ym mhennod 14 yn anghyfarwydd inni, mae'n debyg fod ambell un ohonoch yn fwy cyfarwydd â'r adnodau sy'n cyfeirio at Melchisedec. Nid bod yna lawer o sôn amdano yn y Beibl, ond mae'r cyfeiriadau ato'n arwyddocaol iawn. Cawn y cyfeiriadau yn y tri darlleniad yr wyfyn eu nodi uchod. Rwyf am ddechrau drwy ystyried Salm 110. Fel y gwelwch o'r testun, o dan y pennawd ac yng nghorff y salm cawn y geiriau, 'I Ddafydd. Salm.' Fel y gwyddoch, fe briodolir llawer o'r salmau i nifer o awduron a cheir cryn drafodaeth am awduriaeth amryw ohonynt. Yn achos salmau Dafydd, mae nifer wedi eu hysgrifennu gan aelodau o'i lys.

Ond mae dau beth yn arwyddocaol yma: mae'r priodoli yng nghorff y salm, nid yn y teitl, ac yn fwy na hyn, mae Iesu ei hun yn siarad am awduriaeth y salm yma yn ystod ei weinidogaeth. Wrth ddysgu amdano'i hun (Mathew 22:42–6 a Marc 12:35–7) wrth ddyfynnu Salm 110, fe ddywed: 'Dyweddodd Dafydd ei hun, trwy'r Ysbryd Glân: "Dyweddodd yr Arglwydd wrth fy Arglwydd i, "Eistedd ar fy neheulaw nes imi osod dy elynion dan dy draed." "Y mae Dafydd ei hun yn ei alw'n Arglwydd; sut felly y mae'n fab iddo?" Yr oedd y dyrfa fawr yn gwrando arno'n llawen.'

Wrth gwrs, mae'n wir fod Iesu yn Fab Dafydd yn yr ystyr ei fod yn ei linach, ei fod yn dod yn frenin i orsedd Dafydd ar bobl Dduw, ond mae Iesu am inni ystyried y geiriau yn fwy gofalus. Petai'r salm yn eiddo un o lys Dafydd, mi fyddai'r adnod agoriadol yn medru golygu: Dywedodd yr Arglwydd wrth fy Arglwydd (y Brenin Dafydd) am eistedd ar fy neheulaw ... Ond Dafydd ei hun sy'n ysgrifennu ac yn cyfeirio at ei Arglwydd.

I Iesu, salm amdano ef yw hon, ac os mai Dafydd oedd yr awdur, mae'n amlwg ei fod yntau'n edrych ymlaen at y Meseia hwn. Yn wir, mae hyn yn cael ei gadarnhau yn y disgrifiad ohono fel 'offeiriad am byth yn ôl urdd Melchisedec'. Roedd Dafydd yn gwybod am hanes ei ragflaenydd Saul, fod hwnnw wedi colli ei frenhiniaeth am iddo geisio bod yn frenin ac yn offeiriad. Roedd y teulu brenhinol yn dod o lwyth Jwda, ond dim ond y Lefiaid oedd yn cael bod yn offeiriad. Ond mae'n gweld hefyd, yn Genesis 14, cyn cyfnod y Gyfraith, fod yna un sy'n frenin ac yn offeiriad.

Mae'r awdur at yr Hebreaid, wrth siarad am offeiriadaeth Iesu, yn mynd â ni i'r un lle wrth feddwl am ragoriaeth person Iesu Grist. Wrth ddyfynnu Salm 110:4 yn Hebreaid 7:17, mae'r awdur am bwysleisio annigonolrwydd y Gyfraith a'r offeiriad Lefiaid i ateb yr angen am berffeithrwydd (Hebreaid 7:19). Mae'r Gyfraith 'yn penodi yn archoffeiriad ddynion sy'n weiniaid' ond mae Iesu yn offeiriad 'sydd wedi ei berffeithio am byth' (Hebreaid 7:28). Fel Dafydd, mae'r awdur at yr Hebreaid yn gweld Melchisedec nid fel Iesu'n ymddangos yn yr Hen Destament, ond fel Meseia sy'n cyflawni'r cysgod ohono a geir yn hanes Melchisedec.

Cofiwch, mae nifer o Gristnogion yn gweld yr hanes yn Genesis fel enghraifft o ymddangosiad Iesu, ond rwy'n amau mai'r ymadrodd allweddol sy'n delio â hyn yn Salm 110 (sy'n cael ei ddyfynnu yn Hebreaid 7), yw'r geiriau 'yn ôl urdd'. Nid dweud y mae Dafydd mai Melchisedec yw'r Meseia, ond y bydd y Meseia yn frenin ac yn offeiriad sy'n cyflawni'n llawn yr hyn a ddwedwyd am y dyn hwn.

Rwyf am gloi'r cip hwn ar yr adnodau yn Genesis drwy nodi sut mae Iesu'n gwneud hynny, gan gymryd geiriau Iesu yn Mathew 22 a Marc 12, a geiriau Hebreaid 7 fel sail i'r sylwadau.

Fel Melchisedec, mae Iesu'n frenin cyfiawnder a heddych. Ystyr 'Melch'

yw brenin, a 'sedec' yw cyfiawnder. Mae 'Salem' yn golygu heddych (yr un cytseiniaid â 'Shalom'), a mwy na heddych – mae'n golygu llesiant (*well-being*) yn ein perthynas â Duw ac â phobl, yn cyfeirio at fywyd llewyrchus ar ei orau. Yn ôl Paul, nodweddir teyrnas Iesu gan '[g]lyfiawnder a heddych a llawenydd yn yr Ysbryd Glân' (Rhufeiniaid 14:17). Fel 'offeiriad y Duw goruchaf', dywed awdur yr Hebreaid mai 'Dyma'r math o archoffeiriad sy'n addas i ni, un sanctaidd, di-fai, dihalog, wedi ei ddidoli oddi wrth bechaduriaid, ac wedi ei ddyrchafu yn uwch na'r nefoedd' (Hebreaid 7:26). Fel y bu i Abraham dalu degwm i Melchisedec a derbyn bendith, felly yr ydym ninnau'n rhoi ein gorau i Iesu, ac o'i law yn cael ein 'bendithio â phob bendith ysbrydol yn y nefolion leoedd' (Effesiaid 1:3).

Yn olaf, fel yr awgrymais uchod, mae'r cyfeiriad at Melchisedec, yn arbennig yn yr Hebreaid, yn ein hatgoffa mor annigonol yw'r Gyfraith a'i hoffrymau i ddelio'n dragwyddol â'n hangen ni. Rhaid wrth offeiriad tragwyddol, un heb ddechrau na diwedd, i wneud aberth digonol. Mae Thomas Charles o'r Bala yn cyfeirio at Melchisedec fel cysgod o Iesu ac yn dweud: 'Gan fod mawredd ac ardderchogrwydd yn y cysgodau o Grist yn yr eglwys, mae'n rhaid fod mawredd anfeidrol yn y gwrthlun mawr o'r cwbl, sef Crist ei hun.'

1. Yn ôl un awdur, yr esboniad gorau ar y Beibl yw'r Beibl. Pa mor bwysig i chi yw darllen y Beibl i gyd er mwyn deall y Beibl?
2. Wrth gyfeirio at Iesu fel brenin cyfiawnder a heddych, a'i deyrnas fel teyrnas cyfiawnder, heddych a llawenydd, sut fyddwch chi'n byw hyn yn bersonol, ac yn rhannu hyn ag eraill?
3. Sut fyddwn ni'n 'talw' i Iesu, a beth yw'r bendithion 'ysbrydol yn y nefolion leoedd' y byddwn ni yn eu derbyn yn rhad ganddo?

S4C

Dechrau Canu, Dechrau Canmol
Sul, 29 Ionawr, am 7.30yb

Yr wythnos hon, fe fyddwn yn Llundain. Daw'r canu mawl o'r eglwys Gymraeg yng nghanol y ddinas, Capel y Bedyddwyr, East Castle Street, o dan arweiniad Trystan Lewis

BBC radio cymru

Caniadaeth y Cysegr
Sul, 29 Ionawr, am 7:30yb a 4:30yp

R. Alun Evans yn cyflwyno'r chweched raglen mewn cyfes sy'n trafod gwahanol themâu. Amser sydd dan sylw heddiw

Sul, 29 Ionawr, am 12:00yp

Oedfa dan arweiniad Gwydion a Catrin Lewis, Canolfan Bryn-y-groes, y Bala

I weld y cyhoeddiad digidol Cenn@d yn llawn, dilynwch y ddolen hon: www.cennad.cymru

(Cyhoeddir Cenn@d ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteriaid Cymru, a rhennir tudalennau cydenwadol y cyhoeddiad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg)

Argyfwng ein hysgolion Sul

'Yn gryfach gyda'n gilydd,' gwannach ar wahân

Testun tristwch a phryder yw deall na chynhelir ysgolion Sul bellach mewn nifer fawr o gapeli ac eglwysi post pandemig yng Nghymru. Ar ben hynny deallwn fod tebygolrwydd y bydd nifer sylweddol o



achosion o Fôn i Fynwy yn dirwyn i ben yn y dyfodol agos. Mae'r argyfwng pris ynni a'r gost sylweddol o wresogi capeli neu hyd yn oed festrïoedd llai yn ein gorfodi i wynebu dewis anodd a phoenus dros y gaeaf a'r gwanwyn yn arbennig yn 2023.

Di-blant

Mae'n ofid i sylweddoli bydd nifer o achosion yn marw'n ddi-blant. Ni fydd cenhedlaeth ar gael i etifeddu ffydd y neiniau a'r teidiau a fynegodd eu ffydd yn weladwy wrth fuddsoddi ac adeiladu tai cwrdd cadarn eu cerrig ar gyfer y cenedlaethau oedd i ddod. Mae nifer o achosion eisoes wedi dathlu eu parhad am dros gan mlynedd a rhai am lawer mwy o flynyddoedd fel man ymgynnull i gydnabod trugaredd y Tragwyddol.

Ond, 'pwyl fydd yma mewn can mlynedd?' neu a bod yn fwy realistig, pwyl fydd yma mewn dwy/deg mlynedd?

Mae'n argyfwng

Does dim angen i ni fod yn broffwydi praff i sylweddoli a chynabod pa mor enbydus yw cyflwr a dyfodol nifer fawr o'n capeli ni o bob enwad yng Nghymru. Ces i fy ysgwyd yn ymenyddol y dydd o'r blaen pan honnodd Cymro Cymraeg ei iaith bod enwadaeth wedi bod yn ddylanwad negyddol a niweidiol mewn tref a phentref yn y winllan hon wrth wahanu cymdogaethau clos a chynnes i wahanol adeiladau yn arbennig ar y Sul fel mewn cyfarfodydd yn yr wythnos. Roedd plant oedd yn mynychu'r ysgol leol gyda'i gilydd yn ddyddiol yn cael eu tywys i le addoliad ac ysgol Sul mewn corlannau gwahanol ar ddydd cyntaf yr wythnos. Rhaid i mi gyfaddef nad ydw i erioed wedi edrych mor wrthrychol ac oeraidd ar y sefyllfa fel ag y gwnaeth y brawd hwn. Dwi'n cael fy nghymell i gytuno'n rhannol gyda'r dadansoddiad er fy mod yn

deall yn iawn pam crëwyd achosion enwadol mewn pentrefi, trefi a dinasoedd yng Nghymru.

Newid pethau

Oes modd adfer ysgolion Sul yn ein cymdogaethau? Mae lle i ni ymfalchïo bod gymaint o adnoddau amrywiol ac ardderchog eisioes ar gael trwy ymdrechion Cyngor Ysgolion Sul Cymru a'r cyfarwyddwr diwyd a diflino, y Parchg Aled Davies, Chwilog a'i gydweithwyr campus. Ond onid yw'n briodol a hyd yn oed yn hollol angenrheidiol ein bod fel oedolion yn mynegi ein parodrwydd i gydweithio yn lleol (efallai yn rhanbarthol, os yw'r adnoddau o ran arweinwyr yn brin) yn enwadol a chapelyddol er mwyn parhau gweithgarwch Cristnogol neu mewn nifer o sefyllfaoedd adfer tystiolaeth ysgolion Sul ar gyfer plant Cymru yn 2023 ac wedi hynny.



Amseriad a lleoliad

Er ein byd yn draddodiadol yn defnyddio'r term ysgol Sul, gwyddom fod nifer o ardaloedd yn cynnal gweithgarwch llwyddiannus ar ddiwrnod ar wahân i'r Sul. Mae hyblygrwydd o ran y dydd a'r amser yn dibynnu ar y sefyllfa yn lleol yn fater i'w drafod. I osgoi unrhyw ragfarn enwadol neu ymlyniad cul a sentimental capelyddol bydd gofyn i'r tîm lleol ystyried ai syniad da yw llogi stafell yn yr ysgol leol neu yn neuadd neu lyfrgell y pentref.

Cydweithio

Mae angen inni ddod at ein gilydd yn fuan i gynllunio sut mae symud ymlaen. Un opsiwn yw cynnal trafodaeth gychwynnol trwy gyfrwng Zoom efallai yn genedlaethol neu'n rhanbarthol. Bydd yn fuddiol cael un neu ragor o arweinwyr gwirfoddol yn lleol, rhanbarthol neu yn genedlaethol fyddai yn cydlynw'r ymgyrch adfer/cynnal tystiolaeth Gristnogol

William Williams, 'Caledfryn' 1801-69

- parhad

ymosodiad ar John Elias. O 1839 ymlaen ymledodd y mudiad dirwestol trwy Gymru gan hyrwyddo llwrymataliaeth rhag diodydd meddwol. Cododd mudiadau newydd fel y Rechabiaid ac Urdd y Ruban Las ac anogwyd Cristnogion i arwyddo ardystiad na fyddent byth yn ymgymryd ag alcohol. Plediodd Caledfryn gymedroldeb gan ysgrifennu yn erbyn y mudiad dirwestol, ac o ganlyniad daeth o dan y lach a'i wahardd rhag pregethu mewn rhai eglwysi.

Rhyddfrydiaeth wleidyddol

Ymosododd ar John Elias mewn llythyr gan ei gyhuddo o ragrith ac o gowtowio i'r Eglwys Wladol. Parodd hyn i drefnyddion Calfinaidd Caernarfon – a brawd John Elias yn eu plith – droi yn ei erbyn. Yn wahanol i Elias plediai Caledfryn Ryddfrydiaeth a bu'n amlwg yn yr Anti-Corn Law League, y Gymdeithas Heddwch a Chymdeithas Rhyddhad Crefydd. Golygodd nifer o gylchgronau gan gynnwys *Y Sylwedydd*, 1831; *Tywysog Cymru*, 1832-3; *Y Seren Ogleddol*, 1835; *Yr Adolygydd*, 1839 a'r *Amaethydd*, 1852. Ymhlith y llyfrau a gyhoeddodd oedd *Drych Barddonol* (1839) a *Caniadau Caledfryn* (1856). Priododd dair gwaith ac fe gafodd ferch, Margaret Mary, a mab William (ap Caledfryn) a ddaeth yn enwog fel arlunydd. Bu farw 23 Mawrth 1869.

cydenwadol neu efallai yn anenwadol yn 2023.

Pryder personol

Ar fore dydd olaf 2022 teimlais dan bwysau i rannu fy mhryder ac elfen o obaith y bydd eraill ohonoch yn ymdeimlo â'r gwir angen i gydweithio er mwyn plant Cymru a dyfodol y ffydd yn 'Y winllan wen a roed i'n gofal ni.' Bydd o fantais i ni dderbyn eich awgrymiadau chi neu efallai ganllawiau llwyddiannus ydych chi wedi eu mabwysiadu eisioes yn eich cymdogaeth. Dwi'n hyderus bydd y Parchg Aled Davies, Chwilog yn fwy na pharod i dderbyn eich cyfraniad neu mae croeso i chi anfon neges ataf fi, os ydych yn dymuno.

Mewn gobaith.

Gwilym Wyn Roberts,
serenagwill@btinternet.com

Golygyddol

CARIAD YW DUW

'Cusana fi â chusanau dy wefusau' – dyna ail adnod Caniadau Solomon, sy'n gosod y naws ar gyfer gweddill y llyfr. Cyfres o gerddi erotig ar ffurf ymgom rhwng dyn a menyw, gydag ambell sylwad gan 'ferched Jerwsalem,' yw'r Caniadau. Nid oes sôn am Dduw nac unrhyw foeswersi – heblaw'r darlun o rym cariad tanboeth. Priodolir cerddi'r dyn i'r Brenin Solomon. Pwy oedd y fenyw? Ei briod? Nid does enw, ond dywedir mai 'Sulames' ydoedd (6:13). Yn ôl 1 Brenhinoedd 3:1 'Gwnaeth Solomon gynghrair â Pharo brenin yr Aifft trwy briodi ei ferch.' Ond eto, dywedir fod gan Solomon 700 o wragedd! Beth bynnag am hynny, mae'n amlwg bod Solomon a'r ferch yma'n dwli ae ei gilydd

Rhosyn Saron

Mae'r ferch yn canu ar ddechrau'r Ail Ganiad: 'Yr wyf fel rhosyn Saron, fel lili'r dyffrynnoedd.' Fe welch o'r llun ar glawr *Y Tyst* mai blodyn gwyn gyda chalon ruddgoch yw Rhosyn Saron. Pan mae'r ferch yn methu canfod ei chariad, mae'n crwydro strydoedd y ddinas ac yn ymbil ar ferched Jerwsalem: 'Os dewch o hyd i'm cariad, dywedwch wrtho fy mod yn glaf o gariad. Maent hwy yn holi: A yw dy gariad di yn well nag eraill, O ti,



Lili'r dyffrynnoedd

y decaf o ferched?' Mae'r ferch yn ateb: 'Y mae fy nghariad yn deg a gwridog, yn sefyll allan ymysg deng mil.' *Cue* Ann Griffiths!

Rhosyn Saron yw ei enw, gwyn a gwridog, teg o bryd; ar ddeng mil y mae'n rhagori o wrthrychau penna'r byd...

Nid y Brenin Solomon, ond Iesu yw gwrthrych emynau rhamantus Ann; nid chwant cnawdol fel cariadon y Caniadau, ond cariad a chwant ysbrydol sydd yr un mor danbaid. Mewn emyn arall, mae'n awchu am 'gusanu'r Mab i dragwyddoldeb.' Ac ni fydd y berthynas yn gyflawn tan y bore pan 'Y caf ei

weled fel y mae.' Mae emyn Ann Griffiths yn enghraifft aruchel o natur cariad person tuag at Dduw yn Iesu Grist, ond beth am natur cariad Duw at bobl?

Y cariad sy'n cofleidio pawb

Mae cariad Duw yn Iesu Grist yn cofleidio pob person byw. Yn ei lyfr *Love Wins* dywed Rob Bell 'I believe that Jesus' story is first and foremost about the love of God for every single one of us. It is a stunning, beautiful, expansive love, and it is for everyone, everywhere.' Nid oes gan y Cristion – na chredinwyr o grefyddau eraill yn wir – fonopoli ar gariad Duw. Pwy ydym ni i osod amodau a therfynau ar gariad yr Hollalluog? Y cyfan allwn ddweud i sicrwydd am gariad Duw yw ei fod yn gariad hunanaberthol, ac oddi wrtho fe y mae pob cariad yn tarddu. Os felly, onid yw pawb sy'n gweithredu cariad aberthol o bob math, yn rhoi heb ddisgwyl dim yn ôl, yn gwneud ewyllys Duw, gan gynnwys y rhai nad ydynt yn ymwybodol o ffynhonnell ddwyfol y cariad hwnnw?

Cydnabod y cariad

Gwynfyd y Cristion, wrth gwrs, yw ei fod yn ymwybodol o darddiad y cariad, yn ei deimlo, ac yn ymateb iddo gyda rhyfeddod. Dyna sy'n gwneud ein bywydau yn gyflawn. Ond eto, mae perygl bod amryw o 'eilunod gwael y llawr' yn medru oeri ein cariad ar brydiau. Dyna pam, canodd Eifion Wyn, bod angen 'mwy o ras i'th garu' er mwyn profi'r cariad yn ei gyflawnder:

Onid im dy garu'n iawn
caf waith a dawn sancteiddiach,
a'th ganlyn wnaif bob dydd yn well
ac nid o hirbell mwyach.

Alun Lenny

GAIR AM AIR gan Owain Llŷr Evans

Perthyn i bob iaith geiriau; na ellir yn llawn a llwyr eu cyfieithu i iaith arall. Mae'r gyfres hon o fyfyrddau yn ymdrin ag ambell un o'r geiriau diddorol rheini. Daw testun ein sylw heddiw o iaith a siaredir ym Mhapua Gini Newydd, Kivila: *mokita*. Yn fras, *mokita* yw'r gwirionedd hwnnw nad yw neb yn sôn amdano er bod pawb yn llwyr ymwybodol ohono. Daw'r ymadrodd Saesneg 'the elephant in the room' â ni'n agos at ystyr *mokita*.

Gan gydnabod fod sawl enghraifft o

Mokita crefyddol, hoffem fynd i'r afael ag un yn fras heddiw: y darnau diellon, cas rheini o'r Beibl. Gwyddom amdanynt; gwyddom fod y rhain ynghudd ym mhlygion 'air disglair Duw', ond prin, os o gwbl, y cyfaddefwn hynny: *mokita*.


Salmau dial

Ystyriwn, er enghraifft y Salmau dial: Salmau 35, 58, 59, 69, 83, 109 a 137. Geilw rhai o'r salmau hyn am y driniaeth fwyaf annynol posibl i'r gelyn, ac ni ddichon unrhyw glyfrwch esboniadol eu cyfiawnhau: 'Gwyn ei fyd y sawl sy'n cipio dy blant ac yn eu dryllio yn erbyn y graig.' (137:9 BCN) Rhaid cydnabod eu bod yn gyfan gwbl, gwbl gyfan erchyll. Profiad annymunol yw darllen ac ystyried y Salmau dial. Sut all Duw siarad â ni, drwy'r fath salmau cas, gwenwynig a dialgar? Sut mae myfyrio uwchben y fath syniadaeth? Gellid ei hanwybyddu felly! Dim o gwbl. Maent yn y Beibl; perthynant i'r datguddiad o Dduw a gawn yno. Wna *mokita* ddim mo'r tro.

Duw piau dial

Wrth ystyried y Salmau dial, dylid ceisio cofio fod rhai ohonynt i'w priodoli i'r genedl ac nid i unigolyn – y genedl a ddioddefodd gymaint dan law ei gorthrymwyr. Oes y 'llygad am lygad, dant am ddant' (Exodus 21:24 a Mathew 5:38) oedd hi. Ni ddysgwyd hyd eto i wahaniaethu rhwng y pechadur a'r pechod chwaith. Ffrwyth chwerw – gonest – yr hinsawdd ddiwinyddol ar y pryd yw'r salmau hyn. Ymhellach ystyriwyd y gelyn yn elyn i Dduw yn ogystal ag i'r Salmydd. Credwyd fod enw a gogoniant Duw yn y fantol. Yn bennaf y mae'r Salmydd yn ymddiried y dial i Dduw, ac ni chais weithredu dial drosto'i hun. Gallwn yn hyn ddysgu gwers oddi wrtho. Mor fynych y mynnwn ddial drosom ein hunain!

*Glanha ein calonau o bob chwerwedd
pan fo pobl yn gwneuthur cam â ni. Amen.*



Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:**Y Parchg Ddr Alun Tudur**39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS**Ffôn: 02920 490582****E-bost: aluntudur@btinternet.com****Golygyddion****Y Parchg Iwan Llewelyn Jones**Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE**Ffôn: 01766 513138****E-bost: IwanLlew@aol.com****Alun Lenny**Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX**Ffôn: 01267 232577 /****0781 751 9039****E-bost: alunlenny@hotmail.co.uk****Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:****Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc****Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe****ABERTAWA SA7 0AJ****Ffôn: 01792 795888****E-bost: undeb@annibynwyr.cymru****Dalier Sylw!**Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan
Bwyllgor Llywio'r Adran
Gydenwadol ac nid gan Undeb yr
Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a
wnelo Golygyddion Y Tyst ddim â
chynnwys yr Adran Gydenwadol.

Caersalem, Pontyberem



Fe gymerodd plant ysgol Sul Caersalem, Pontyberem ran mewn oedfa gymunedol yn y dref a hynny trwy ddatganiadau llafar a gân. Trefnwyd yr oedfa flynyddol hon gan y cyngor cymuned a chafwyd datganiadau gan Eglwysi'r plwyf. Cynhaliwyd yr oedfa ar 15 Ionawr.



Mae teg oleuni blaen y wawr
o wlad i wlad yn dweud yn awr
fod bore ddydd gerllaw;
mae pen y bryniau'n llawenhau
wrth weld yr haul yn agosáu
a'r nos yn cilio draw.

WATCYN WYN, 1844-1905

**Cyfundeb Gorllewin Morgannwg**

yn cyflwyno

Heulwen Dan Gymylau

Ymgynghwys Dementia-gyfeillgar

Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

yng nghwmni

Emlyn Davies, Rhodri Gwynn Jones a Sian Meinir

CAPEL Y NANT, CLYDACH, SA6 5HB**Nos Fercher, 1 Chwefror, 2023**

6.30 p.m.

Croeso cynnes i bawb

DYDD GWEDDI'R BYD 2023 TAIWAN

Cynhelir dydd Gweddi'r Byd
ddydd Gwener, 3 Mawrth

Thema: 'Clywais am eich ffydd'

Cyflwyniad pwynt pŵer ar gael yn
Gymraegdrwy e-bostio Mary Thomas:
rema.thomas@btinternet.com.

Cyflwyniad pwynt pŵer ar gefndir Taiwan,
20 sleid gyda theitlau Cymraeg
ynghyd â sript Cymraeg
[Taiwan Presentation Welsh Slides
Download with Welsh script]
ar gael o'r Swyddfa Ganolog drwy e-
bostio office@wwdp.org.uk

Pris y PowerPoint Saesneg yw £2.
ond medrwyd sicrhau'r lawr lwythiad
Cymraeg

ond i chi gyfrannu at eich casgliad lleol.

Deunydd ar gyfer plant i'w cael yn rhad ac
am ddim i'w lawr lwytho
oddi ar y wefan: www.wwdp.org.uk

Beti-Wyn James**Carys Ann**

Swyddogion Cyhoeddusrwydd